

Yr Amser Presennol – The Present Tense

You must be able to:

- Use the present tense with confidence
- Talk about yourself and your interests and those of other people
- Ask Present Tense questions and answer 'Yes' and 'No' correctly.

Defnyddio'r Amser Presennol – Using the Present Tense

- The Present Tense (**Yr Amser Presennol**) is the most commonly used tense for everyday language.
- The most useful forms are **I, He, She** and anyone or anything that is **named**, e.g. John

These forms have been highlighted below in yellow

Cadarnhaol – Positive

- **Rydw i (or Dw i)** I/I'm
- **Rwyt ti** You/You're (singular)
- **Mae e** He/He's
- **Mae hi** She/She's
- **Mae John** John/John's
- **Rydyn ni** We/We're
- **Rydych chi** You/You're (polite or plural)
- **Maen nhw** They/They're

e.e. nofio /to swim	
Rydw i'n nofio	I swim/I'm swimming
Rwyt ti'n nofio	You swim/You're swimming
Mae e'n nofio	He swims/He's swimming
Mae hi'n nofio	She swims/She's swimming
Mae John yn nofio	John swims/John's swimming
Rydyn ni'n nofio	We swim/We're swimming
Rydych chi'n nofio	You swim/You're swimming
Maen nhw'n nofio	They swim/They're swimming

Negyddol – Negative

- **Dydw i ddim** I don't/I'm not
- **Dwyt ti ddim** You don't/You're not
- **Dydy e ddim** He doesn't/He's not
- **Dydy hi ddim** She doesn't/She's not
- **Dydy John ddim** John doesn't/John's not
- **Dydyn ni ddim** We don't/We're not
- **Dydych chi ddim** You don't/You're not
- **Dydyn nhw ddim** They don't/They're not

(singular)

(polite or plural)

Enghreifftiau – Examples:

- **Rydw i'n byw yn Llanedeyrn.** I live in Llanedeyrn.
- **Mae hi'n hoffi caws cryf.** She likes strong cheese.
- **Mae Mr Evans yn dysgu hanes.** Mr Evans teaches history.
- **Dydw i ddim yn mynd i'r dref heddiw.** I'm not going to town today.



Aelodau'r Teulu – Family Members

mam	mum	chwaer/chwirydd	sister/s
dad	dad	brawd/brodyr	brother/s
rhieni	parents	mam-gu	grandma
llys-fam	step-mum	tad-cu	grandad
llys-dad	step-dad	fy nheulu	my family

Key Point

Treat anyone or anything named in the Present Tense in the same way as 'He' or 'She'. The sentence starts with 'Mae ...': **Mae Mam yn mwynhau gwyllo pêl-droed.** Mum enjoys watching football.

Diddordebau – Interests

- Beth rwyt ti'n mwynhau gwneud yn dy amser hamdden?
What do you enjoy doing in your leisure time?
- Rydw i'n mwynhau ... I enjoy ...

cadw'n heini	keeping fit	marchogaeth	horseriding
canu	singing	mynd allan	going out
cerddoriaeth	music	mynd i'r dref	going to town
chwarae gemau	playing games	nofio	swimming
chwarae pêl-droed	playing football	pêl-rwyd	netball
chwaraeon	sport	pobi	baking
darllen	reading	pysgota	fishing
dawnsio	dancing	rhedeg	running
gwau	knitting	sboncen	squash
gwrando ar gerddoriaeth	listening to music	seiclo	cycling
gwylio ffilmiau	watching films	siopa	shopping
gymnasteg	gymnastics	snwcer	snooker
hoci	hockey	syrffio	surfing



Enghreifftiau – Examples:

Rydw i'n hoffi gwylio rygbi.

Mae Dad yn mwynhau canu yn y côr.

Dw i'n seiclo bob dydd Sadwrn gyda fy ffrindiau.

Rydw i'n mwynhau chwarae chwaraeon o bob math yn enwedig pêl-droed a hoci.

Dw i'n mwynhau pobi a gwau.

Mae fy mam yn hoffi nofio yn y ganolfan hamdden.

Present Tense Questions and Answers

- When asking a question in the Present Tense there is a specific answer for 'Yes' or 'No' depending on the person involved:

Question starts:		'Yes' answer	'No' answer
Wyt ti ...?	Do/Are you ...? (singular)	Ydw	Nac ydw
Ydy e ...?	Does/Is he ...?	Ydy	Nac ydy
Ydy hi ...?	Does/Is she ...?	Ydy	Nac ydy
Ydy John ...?	Does/Is John ...?	Ydy	Nac ydy
Ydych chi ...?	Do/Are you ...? (polite/plural)	Ydw/Ydyn	Nac ydw/Nac ydyn
Ydyn nhw ...?	Do/Are they ...?	Ydyn	Nac ydyn

Quick Test

- Say/Write in Welsh:
a) I like rugby. b) I don't like swimming.
- Answer this question in a sentence in Welsh: **Ble rwyt ti'n byw?**
- Answer 'Yes' or 'No' in Welsh: **Wyt ti'n mwynhau gwylio ffilmiau?**

Key Point

If asked a question starting with '**Wyt ti ...?**' your answer is always '**Ydw**' (Yes) or '**Nac ydw**' (No).

Key Vocab

rydw i	I/I'm
dydw i ddim	I don't/ I'm not
teulu	family
chwaer	sister
brawd	brother
mwynhau	to enjoy
amser hamdden	leisure time
chwarae	to play

Yr Amser Dyfodol – The Future Tense

You must be able to:

- Talk and write about events in the future using the Future Tense
- Discuss the environment.

Defnyddio'r Amser Dyfodol – Using the Future Tense

Bydda i	I will	Fyddda i ddim	I won't
Byddi di	You will	Fyddi di ddim	You won't
Bydd e	He will	Fydd e ddim	He won't
Bydd hi	She will	Fydd hi ddim	She won't
Bydd Owen	Owen will	Fydd Owen ddim	Owen won't
Byddwn ni	We will	Fyddwn ni ddim	We won't
Byddwch chi	You will	Fyddwch chi ddim	You won't
Byddan nhw	They will	Fyddan nhw ddim	They won't

Key Point

Any Future Tense phrase will start with '**Bydd ...**' and any *negative* phrase in the Future Tense will start with '**Fydd ...**'.

Enghreifftiau – Examples:

- **Yn y dyfodol bydda i'n byw yn Llundain.**
In the future I will work in London.
- **Bydd fy chwaer yn hwyr i'r cyngerdd.**
My sister will be late to the concert.
- **Byddan nhw'n helpu gyda'r trefniadau.**
They will help with the arrangements.
- **Fydd y rhieni ddim yn hapus am y pris.**
The parents won't be happy about the price.

Cwestiynau ac Atebion Amser Dyfodol – Future Tense Questions and Answers

Once again, 'Yes' and 'No' answers in the Future Tense are different according to who is involved:

Question starts:		'Yes' answer	'No' answer
Fyddi di?	Will you?	Bydda	Na fydda
Fydd e?	Will he?	Bydd	Na fydd
Fydd hi?	Will she?	Bydd	Na fydd
Fydd Owen?	Will Owen?	Bydd	Na fydd
Fyddwch chi?	Will you?	Byddaf/Byddwn	Na fyddaf/Na fyddwn
Fyddan nhw?	Will they?	Byddan	Na fyddan

- **Beth byddwch chi'n gwneud ar ôl TGAU?**
What will you do after GCSEs?
Ar ôl TGAU bydda i'n mynd i'r coleg i wneud Lefelau A mewn Saesneg, hanes a daearyddiaeth.
After GCSEs I will go to college to do A Levels in English, history and geography.



- Beth byddwch chi'n gwneud yn 18 oed?**
 What will you do at 18?
Yn 18 oed bydda i'n mynd i'r brifysgol, gobeithio. Hoffwn i astudio newyddiaduraeth.
 At 18 I will go to university, hopefully. I'd like to study journalism.
- Beth byddwch chi'n gwneud mewn deng mlynedd?**
 What will you be doing in ten years' time?
Mewn deng mlynedd bydda i'n gweithio yn Llundain neu Gaerdydd fel newyddiadurwr.
 In ten years' time I will be working in London or Cardiff as a journalist.

Yr Amgylchedd – The Environment

ailgylchu	to recycle	môr	sea
amgen	alternative	pŵer	power
cynhesu	to warm	rhew	ice
cynhesu byd-eang	global warming	sbwriel	rubbish
gwastraff	waste	tanwydd	fuel
haen oson	ozone layer	toddi	to melt
hinsawdd	climate	twll	hole
llosgi	to burn	tyfu	to grow
llygredd	pollution	ynni	energy
llywodraeth	government	y tymor hir	the long term



- Sut bydd yr amgylchedd yn y dyfodol?**
Yn y dyfodol bydd twll yr haen oson yn tyfu.
Achos cynhesu byd-eang bydd rhew yr Arctig yn toddi.
Bydd yr hinsawdd yn newid am byth.
Bydd tanwydd ffosil yn rhedeg allan.

What will the environment be like in the future?
 In the future the hole in the ozone layer will grow.
 Because of global warming Arctic ice will melt.
 The climate will change forever.
 Fossil fuels will run out.
- Felly beth dylen ni wneud i helpu'r amgylchedd?**
Dylen ni ailgylchu ein gwastraff.
Dylen ni ddefnyddio ynni y môr a'r gwynt.
Dylen ni yrru ceir trydan.

So what should we do to help the environment?
 We should recycle our waste.
 We should use sea and wind energy.
 We should drive electric cars.
- Beth hoffet ti weld yn digwydd?**
Hoffwn i weld paneli solar ar bob tŷ.
Hoffwn i weld pawb yn defnyddio ynni amgen yn lle tanwydd ffosil.
Hoffwn i weld cynllunio am y tymor hir.

What would you like to see happening?
 I'd like to see solar panels on every house.
 I'd like to see everyone using alternative energy instead of fossil fuels.
 I'd like to see planning for the long term.

Quick Test

- Say/write in English:
 - Bydda i'n mynd i'r chweched dosbarth y flwyddyn nesaf.
 - Bydd fy nhad yn hapus iawn.
 - Fydd Tomos ddim yn symud i Loegr.
- Write 3 sentences of your own in Welsh saying how you think we can help the environment. Use connectives to help you extend your sentences.

Key Vocab

y dyfodol	the future
gobeithio	hopefully
y brifysgol	university
yr amgylchedd	the environment
gyrru	to drive
yn lle	instead of
cynllunio	to plan

Write your answers on a separate piece of paper.

1 Darllenwch y paragraff a rhowch y ffurfiau cywir yn y bylchau:

Read the paragraph and fit the correct forms in the spaces:

[10 marks]

gyda hi	roeddwn i'n meddwl	ces i	arhoson ni	roedd
roedden nhw	es i	treulion ni	aethon ni	gwelon ni'r

Dros hanner tymor _____ gyda Dad i Gaerdydd. _____ gyda fy modryb yn y Bae. Mae fflat smart iawn _____ yn edrych dros y môr. Ar y noson gyntaf _____ i Ganolfan y Mileniwm i weld sioe sgiliau syrca, _____ ei bod hi'n ardderchog. _____ dros ugain o berfformwyr yn y sioe ac _____ i gyd yn dalentog dros ben! _____ ddydd Mercher yn yr Amgueddfa Genedlaethol; _____ deinosauriaid wrth gwrs a'r gwaith celf. _____ amser gwych achos roedd arddangosfa ffotograffiaeth du a gwyn ymlaen.

2 Cysylltwch y cwestiynau â'r atebion cywir:

Connect the questions to the correct answers:

[8 marks]

(i) Est ti i'r dref ddydd Sadwrn?	(a) Do, roedd e'n siarad gyda Mr Jones.
(ii) Gest ti amser da neithiwr?	(b) Es i i Lundain, arhosais i gyda fy mam-gu.
(iii) Pryd cafodd Julien Macdonald ei eni?	(c) Ydy, gorffennodd e ddoe!
(iv) Wyt ti wedi clywed am Andrew?	(ch) Naddo, roedd hi'n ddiflas a dweud y gwir.
(v) Beth wnest ti dros y gwyliau?	(d) Do, roeddwn i'n meddwl ei fod e'n anhygoel!
(vi) Fwynhaist ti'r llyfr?	(dd) Do, es i gyda Jim a Mike.
(vii) Welaist ti Steffan yn yr ysgol heddiw?	(e) Cafodd e ei eni ym mil naw saith un.
(viii) Ydy Jacob wedi gorffen ei arholiadau nawr?	(f) Nac ydw, beth sydd wedi digwydd?

3 Darllenwch y brawddegau a thiciwch y llun cywir bob tro.

Read the sentences and tick the correct picture each time.

[5 marks]

(i) Codais i am chwarter wedi saith.						
(ii) Ces i wy i frecwast.						

(iii)	Y wers gyntaf heddiw oedd gwyddoniaeth.			
(iv)	Es i i ymarfer côr am ugain munud i ddau.	 	 	 
(v)	Cyrhaeddais i adre am bum munud ar hugain i bump	 	 	 

4 Darllenwch ddyddiadur Llew o'i daith i Efrog Newydd. Ticiwch y blychau i ddangos os yw'r brawddegau yn gywir neu'n anghywir.

Read Llew's diary of his trip to New York. Tick the boxes to show whether the sentences are true or false.

[6 marks]

Howdî o Efrog Newydd! Ddydd Gwener teithion ni am dair awr a hanner o Landrindod i Heathrow ac wedyn roedden ni'n hedfan am wyth awr cyn cyrraedd Maes Awyr JFK. Ddydd Sadwrn aethon ni ar daith fws o gwmpas y ddinas, roedd popeth yn wych wrth gwrs ond roeddwn i'n meddwl bod y Statue of Liberty yn anhygoel. Ddydd Sul aethon ni lan yr Empire State Building, pob un o'r cant a dau lawr!

Y diwrnod nesaf seiclôn ni o gwmpas Central Park, mae e'n enfawr! Yn y nos gwelon ni sioe ar Broadway. Roedd popeth yn wfreiddiol, y canu, y dawnsio, roeddwn i wrth fy modd! Heddiw, rydyn ni wedi cael amser i siopa. Rydw i wedi prynu anrhegion i'r teulu i gyd a nawr rydw i'n mynd i chwilio am rywbeth i fy hun i gofio gwyliau arbennig iawn!

		Cywir	Anghywir
(i)	Hedfanodd Llew o Landrindod i Efrog Newydd.		
(ii)	Doedd Llew ddim yn hoffi'r Statue of Liberty.		
(iii)	Mae dros 100 llawr yn yr Empire State Building.		
(iv)	Aeth Llew i Central Park ddydd Sul.		
(v)	Roedd nos Lun yn noson dda.		
(vi)	Mae Llew wedi mwynhau'r daith.		